**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for North Wales and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1380
Ein cyf/Our ref KSNWT/05298/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

09 Mai 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Ebrill ynghylch y ddeiseb i wneud bathodynnau glas yn fathodynnau am oes ar gyfer unigolion sydd â diagnosis gydol oes.

Fel y dywedodd fy rhagflaenydd mewn gohebiaeth flaenorol, mae bathodynnau glas yn ddilys am dair blynedd. Mae'r hyd hwn  wedi'i nodi mewn deddfwriaeth ac mae'n gyffredin ledled y DU. Fodd bynnag, gellir dyfarnu bathodyn i ymgeiswyr a fydd yn bodloni'r meini prawf cymhwystra yn barhaol ar sail 'nid i'w hailasesu', sy'n golygu na fydd angen iddynt ddarparu unrhyw dystiolaeth feddygol ychwanegol i gefnogi eu cais, dim ond prawf o hunaniaeth a phreswyliad. Mae'r rhain yn ofynion rhesymol a chymesur ar ymgeiswyr ac yn angenrheidiol i atal twyll a chamddefnyddio.

O ran hyfforddi aseswyr desg, mae hwn yn fater i awdurdodau lleol sydd â'r ddyletswydd statudol i weinyddu cynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru. Nid yw Llywodraeth Cymru fel arfer yn cadw cofnodion ar hyfforddiant a chymwysterau staff awdurdodau lleol.

Nid oes proses apelio statudol yn erbyn penderfyniad a wnaed gan awdurdod lleol ar gais bathodyn glas. Nid oes gan Lywodraeth Cymru y pŵer cyfreithiol i ymyrryd wrth asesu achosion unigol. At hynny, mae'r canllawiau'n argymell bod gan awdurdodau lleol bolisi clir ynghylch sut i adolygu penderfyniadau ynghylch y bathodyn glas sy'n cael eu herio gan ymgeiswyr. Dylai ymgeiswyr sy'n anhapus ynglŷn â'r ffordd y cafodd y broses ei chynnal gael gwybod am weithdrefn gwyno safonol yr awdurdod lleol, yn yr un modd ag y byddai unrhyw ddefnyddiwr arall o wasanaethau'r awdurdod lleol yn cael gwybod am ei hawl i gwyno.

Fel y nodwyd mewn gohebiaeth flaenorol, dros yr 20 mlynedd diwethaf mae cynllun y Bathodyn Glas wedi bod yn destun sawl adolygiad ac o ganlyniad rydym wedi gwneud newidiadau ar y cyd â rhanddeiliaid. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod cynllun y Bathodyn Glas yn parhau i fod yn gadarn ac yn deg, a bod y broses o gael bathodyn mor effeithlon â phosibl.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir,

**Ken Skates AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for North Wales and Transport